Ebrill 2025

Dilynnwch ni ar Facebook: Ysgol Gymraeg Trefynwy

# Y Bont

**Newyddion Ysgol**




Mae tymor arall wedi hedfan heibio ni, gyda'r plant a staff yn brysur yn dysgu am 'pobl sy'n ein helpu ni' Pasg a dathliadau eraill. Dechreuwyd y tymor gydag Eisteddfod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Gwahoddwyd y rhieni i gael paned a pice ar y maen a chlywed y plant yn canu.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr, gydag amrywiaeth o wisgoedd a gweithgareddau hyfryd.



Cafodd y plant ymweliad gan PC Jones, yn dysgu am waith yr heddlu. Roeddent wrth ei boddau pan gafodd Mrs Stephens ei harestio!

Gweithiodd plant Blwyddyn 1 a 2 ar brosiect i ddatlbygu sgiliau TGCH.

Fel rhan o waith clwstwr ysgolion Trefynwy, daeth Tudur Phillips i ddysgu'r plant gemau buarth Cymraeg.

Gwisgodd y plant dillad coch er mwyn codi arian ar gyfer diwrnod trwynau coch.

Cynhaliwyd 2 noson rhieni llwyddiannus gyda bron pob teulu yn dod i drafod cynnydd eu plentyn/ plant a gweld eu llyfrau.

Rydym yn gorffen y tymor gyda brecwast Pasg gan gynnwys helfa, gemau ac parêd hetiau.

Wrth i'r tywydd cynhesu, cofiwch roi eli haul ar eich plentyn yn y bore a'i atgoffa i wisgo het.

**Gwaith Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Trefynwy (PTFA)**

Diolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am barhau i gefnogi'r Ysgol. Darparwyd caffi Cymreig i helpu ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac wedi trefnu dathliad a brecwast hyfryd i'r plant er mwyn Dathlu'r Pasg a diwedd tymor.

Diolch i Natalie Peel am gefnogi plant blwyddyn 1 a 2 i greu gwaith celf greadigol grŵp ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

Mwynhewch eich gwyliau Pasg. Edrychwn ymlaen at groesawu'r plant yn ôl ar Ebrill 28ain.



## Dyddiadau Pwysig

**HMS**
2/6/2025
21/7/2024

Mae presenoldeb pob plentyn yn bwysig i ni er mwyn sicrhau'r cyfleoedd orau i bob disgybl. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i gysylltu gwyliau teuluol gyda gwyliau ysgol (hyd yn oed os ydych yn colli cwpl o ddiwrnodau, mae'n well nag wythnos gyfan neu mwy) –Diolch

28/4/25 – Dechrau tymor yr Haf
5/5/25 – Gwyl y banc
14/5/25 – Bore agored i ddarpar rhieni a phlant
19/5/25 – Diwrnod y Gwenyn - gwisgo fel gwenyn/ blodyn/ lliwgar
20/6/25 – Dosbarth Derbyn – prawf golwg a twf
4/7/25 – Mabolgampau Ysgol @1:45
8/7/25 – Ymweliad i Ferm Parc Raglan
18/7/2025 – Diwedd Tymor gorffen am 1:45